OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1744 (Cy. 240) (C. 107)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 2) 2015

*Gwnaed - - - - 25 Medi 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 199(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 2) 2015.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 21 Hydref 2015**

**2.** Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym yw 21 Hydref 2015—

(a) adran 132 (Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol); a

(b) adran 133 (Rheoliadau am y Bwrdd Cenedlaethol).

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

25 Medi 2015

(**1**) 2014 dccc 4.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Hwn yw'r ail Orchymyn Cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn darparu mai 21 Hydref 2015 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dod ag adrannau 132 a 133 o'r Ddeddf i rym.

Mae adran 132 yn sefydlu'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ("y Bwrdd Cenedlaethol") ac yn nodi dyletswyddau a swyddogaethau'r Bwrdd hwnnw.

Mae adran 133 yn rhoi'r pŵer i wneud rheoliadau sy'n caniatáu i ddarpariaeth bellach gael ei gwneud ynghylch y Bwrdd Cenedlaethol.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 170 | 1 Tachwedd 2014 | 2014/2718 (Cy. 274) (C. 118) |
| Adran 179 | 1 Tachwedd 2014 | 2014/2718 (Cy. 274) (C. 118) |
| Adran 180 | 1 Tachwedd 2014 | 2014/2718 (Cy. 274) (C. 118) |
| Atodlen 3 | 1 Tachwedd 2014 | 2014/2718 (Cy. 274) (C. 118) |